

Adolygiad Thematig o ran Symleiddio

Ebrill 2024

Ar ddechrau'r Chweched Senedd, cytunodd y Bwrdd ar eu hamcanion strategol a'u rhaglen waith. Un o'r amcanion yw 'symleiddio'r Penderfyniad i ddarparu hyblygrwydd i Aelodau i bennu eu blaenoriaethau eu hunain, gyda mesurau diogelwch cymesur, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Senedd'.

Mae'r amcan yn parhau:

Dylai'r Penderfyniad fod yn syml, yn glir ac yn dryloyw i Aelodau a'r cyhoedd, gyda'r lefel gywir o fesurau gwirio a chydbwysio i gynnal hyder y cyhoedd. Bydd yn rhoi hyblygrwydd i Aelodau wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch eu model busnes bach a blaenoriaethau, gyda phwyslais ar atebolrwydd yr Aelodau i'r cyhoedd. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer Aelodau drwy'r Penderfyniad a'r gwasanaethau y mae'r Comisiwn yn eu darparu yn ategu ei gilydd o ran cefnogi Aelodau yn effeithiol yn eu gwaith.

Adolygiad thematig i symleiddio'r Penderfyniad

Mae'r Bwrdd wedi cytuno i gynnal adolygiad thematig i'w gwneud mor syml â phosibl i Aelodau a Staff Cymorth ddeall pa gyllid fydd ar gael a sut i'w hawlio, ac i'w gwneud mor syml â phosibl i'r rhai yn y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau gymhwyso'r drefn yn effeithlon, yn ddarvoudus a chan olygu llai o risg o anghydfod.

Mae cam cyntaf y gwaith hwn, adolygiad systematig ar ddrafftio'r Penderfyniad gyda llygad ar gysondeb, eglurder iaith a chael gwared ar reolaethau diangen wedi dechrau.

Gwnaed y newidiadau canlynol yn ystod yr Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad 2022-23 o ganlyniad i'r adolygiad thematig o ran symleiddio:

- Mewn ymateb i adborth gan Aelodau a staff, cyhoeddwyd fersiwn o'r Penderfyniad yn dangos newidiadau wedi'u tracio a wnaed o ganlyniad i Adolygiad Blynyddol ynghyd â'r Penderfyniad diwygiedig.
- Cynhaliodd swyddogion sy'n cefnogi'r Bwrdd a Chymorth Busnes i'r Aelodau sesiynau galw heibio ar y fersiwn ddiweddaraf o'r Penderfyniad. Dywedodd Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth eu bod yn hapus â'r lefel uwch o ymgysylltu ar yr Adolygiad Blynyddol, gan nodi ei fod yn caniatáu iddynt gynllunio eu cyllidebau mewn da bryd.
- Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar Adolygiad Blynyddol Penderfyniad 2023-24, gwnaeth y Bwrdd y geiriad yn y Penderfyniad yn gliriach i ddangos pa gronfeydd sydd ar gael ar gyfer asesiadau DSE a mesurau iechyd a diogelwch.
- Dangosodd ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad Blynyddol fod gofynion y Penderfyniad yn golygu nad oedd yr Aelodau'n aml yn gallu dod o hyd i ddarparwyr addas wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau ac roedd y trothwy ar gyfer cael tri dyfynbris yn arwain at fwy o ymdrech weinyddol. Arweiniodd hyn at newid gan y Bwrdd i'r Penderfyniad i'w gwneud yn ofynnol cael tri dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer unrhyw wariant ar nwyddau neu wasanaethau â gwerth amcangyfrifedig dros £1,500, sef cynnydd o £750. Drwy sicrhau y caiff yr Aelodau geisio cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau mewn achosion eithriadol i ddatgymhwyso'r gofyniad, bydd y broses gaffael yn fwy effeithlon ac yn llai llafurus.

Gwnaed y newidiadau canlynol yn ystod yr Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad 2023-24:

- Ni fydd gofyniad mwyach i ofyn am ganiatâd ymlaen llaw gan Gomisiwn y Senedd cyn mynd i gostau am arosiadau dros nos y tu allan i ardal Caerdydd;
- Gall Aelodau gyflwyno un achos busnes mewn perthynas ag ymweliad gan fwy nag un Aelod am deithiau rhyngwladol;

- Ni fydd yn rhaid i Aelodau bellach brynu na llogi llungopiwyr oddi ar restr gymeradwy o gyflenwyr;
- Bydd yn datgan yn glir bod y cyfraddau y gall staff Aelodau eu hawlio am ad-daliad ar gyfer teithio ac aros mewn gwesty yr un fath â chyfraddau'r Aelodau;
- Rhoddwyd diweddariad i Benaethiaid Staff y grwpiau gwleidyddol ar y newidiadau y cytunwyd arnynt o ran y Penderfyniad mewn da bryd er mwyn iddynt gynllunio eu cyllidebau ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Cyhoeddwyd fersiwn 'newidiadau wedi'u tracio' o'r Penderfyniad ar-lein, gan ei gwneud yn haws gweld beth sydd wedi newid.
- Newidiwyd y geiriad o ran cyflwyno hawliadau hwyr am gostau busnes yr Aelodau. Roedd sylwadau ar y Penderfyniad yn dangos bod anghysondeb a dryswch ynghylch y defnydd o'r geiriau '*bydd*' a '*gall*' (neu '*must*' a '*may*') yn yr un paragraff ar brosesu hawliadau hwyr. Diwygiwyd y geiriad i ddangos y '*bydd*' cyflwyno hawliad yn hwyr heb gyfiawnhad rhesymol yn arwain at wrthod yr hawliad. Teimlwyd bod hyn yn lleihau dryswch ac yn cynyddu amseroldeb hawliadau gan arwain at sefyllfa gyllidebol fwy cywir ar gael i staff, gan alluogi mwy o reolaeth a chynllunio cyllidebol.
- Bydd yn nodi'n glir bod ad-daliadau ar gyfer costau llety ar fusnes pwyllgor yn fater i Gomisiwn y Senedd ac nid yw wedi'i gynnwys yn y Penderfyniad hwn;
- Bydd yr uchafswm o ddiwrnodau a ystyrir yn 'amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus' gael eu cyfrifo dros flwyddyn ariannol yn hytrach na chyfnod treigl o 12 mis. Bydd hyn yn cyd-fynd yn fwy priodol â'r gofynion ar gyfer hyfforddiant gorfodol i luoedd arfog ac yn sicrhau bod y lwfans hwn yn gyson â lwfansau eraill sy'n seiliedig ar flwyddyn ariannol.